



Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol

Rhaglen Cymru gyfan dan arweiniad y Byrddau Iechyd a gynhelir mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, ac sy'n ymateb i ddogfen Cymru Iachach.

Diweddariad Diwedd Blwyddyn

Ebrill 2021 - Mawrth 2022

Crynodeb Gweithredol

Sue Morgan, Cyfarwyddwr Cenedlaethol ac Arweinydd
Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol



Mae'n bleser gennyf gael cyflwyno'r diweddariad diwedd blwyddyn (2021/22) hwn gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Bu'n flwyddyn heriol ac ystyried mai dyma oedd ail flwyddyn y pandemig, cyd-destun a arweiniodd at adolygu'r rhaglen er mwyn trefnu gwaith a fodolai eisoes yn ôl blaenoriaeth ac ymateb i'r heriau newydd a gyflwynwyd gan y pandemig.

Yn y cyd-destun hwn, nodwyd pedair blaenoriaeth allweddol ym mis Ebrill 2021 ar gyfer y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol:

- I. Datblygu Clwstwr
- II. Llesiant Meddyliol
- III. Gofal Sylfaenol Brys
- IV. Gofal Integredig a Chymunedol -

Mae'r diweddariad hwn yn rhoi trosolwg o gynnydd y Rhaglen o 1 Ebrill 2021 hyd 31 Mawrth 2022, yn nodi gwaith yr Arweinwyr Cenedlaethol ac yn edrych ar ein rhaglen waith i'r dyfodol yn 2022/23. Un o'r datblygiadau mwyaf nodedig fu'r gwaith gyda rhanddeiliaid ehangach ac, wrth inni symud ymlaen, rydym yn bwriadu adeiladu ar hyn.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, ym maes gofal sylfaenol a'r rhai rydyn ni wedi bod yn cydweithio â nhw mewn partneriaeth. Rydym yn edrych ymlaen i barhau â'r cynnydd a wnaed eisoes.



"Mae 2021-22 wedi bod yn flwyddyn wych arall i'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Rhaglen o bwys arbennig i mi fu'r Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam. Roedd hyn yn golygu ymgysylltu a chydweithredu mor eang ar draws ystod o bartneriaid, sy'n argoeli'n dda ar gyfer blwyddyn bontio 2022-23. Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol hefyd wedi bod yn ddylanwadol mewn partneriaeth â'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng."

Ar drothwy 2022-23, mae gennyf bob ffydd y byr y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn adeiladu ar ei llwyddiant er mwyn helpu i gefnogi ymagwedd systemau cyfan at adfer ac ailsefydlu. Bydd y Rhaglen Seilwaith Cymunedol yn ganolog i hyn."

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i gydnabod ymdrechion ac ymrwymiad pawb sy'n ymwneud â'r gwaith hwn; o dîm y Rhaglen Strategol, o dan arweiniad medrus Sue Morgan, cydweithwyr yn y Byrddau Iechyd, hyd at bartneriaid darparu ledled Cymru sydd wedi croesawu gwaith y Rhaglen Strategol, ac yn enwedig y gwaith Datblygu Clwstwr Carlam. Hoffwn ddiolch i'r holl gydweithwyr hynny sydd wedi gwireddu'r newidiadau hyn, ac a fydd yn parhau i wneud hynny."


Alex Slade, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cymru

1. Mynegai

1. Mynegai.....	3
2. Rhagair.....	4
3. Cynnydd nodedig Ebrill 2021 - Mawrth 2022.....	5
4. Partneriaethau.....	6
5. Tîm y RhSGS	7
6. Blaenoriaethau llif gwaith y RhSGS 2021/2022.....	7
6.1. Ffrwd Waith Atal a Llesiant	8
6.2 Ffrwd Waith y Model 24/7	9
6.3 Ffrwd Waith Data a Digidol	10
6.4. Y Gweithlu a Datblygu Trefniadol (GDT).....	11
6.5 Ffrwd Gwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu	12
6.4 Trawsnewid a Gweledigaeth i Glystyrau	13
7. Y diweddaraf am waith ehangach tîm y Rhaglen Strategol genedlaethol	15
7.1 Y Diweddaraf gan yr Arweinydd Nyrsio Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol ..	15
7.2 Y Diweddaraf gan yr Arweinydd GPPI Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol...	15
7.3 Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol	16
7.4 Ymgysylltu a chynrychiolaeth genedlaethol:	17
8. Casgliad	18
9. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth	18
16. Atodiad 1 Cyflawniadau'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol 2021-22	19

2. Rhagair

Rhaglen i Gymru gyfan a arweinir gan y Byrddau Iechyd yw'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Mae'r Rhaglen, a gynhelir mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, yn ymateb i ddogfen *Cymru Iachach*. Lanswyd y Rhaglen ym mis Tachwedd 2018, ac mae pedwar cam cyflawni allweddol wedi'u cwblhau hyd yma.




Ffigur. 1 Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol 2018-2022

Cadarnhawyd y byddai pedair blaenoriaeth allweddol strategol yn llunio rhaglen waith 2021/2022:

- Datblygu Clwstwr Carlam
- Gofal Sylfaenol Brys
- Seilwaith Cymunedol
- Llesiant Meddyliol

Cyflawnir y pedair blaenoriaeth strategol hyn drwy chwe ffrwd waith bresennol y rhaglen strategol. Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y rhaglen yn parhau i gael eu cynnal drwy Fwrdd Rhaglen Strategol sy'n adrodd wrth y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol.



Ffigur 2 Ansawdd a Strwythur Llywodraethu

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys trosolwg o'r cynnydd nodedig a wnaed a'r cynhyrchion allweddol a lansiwyd dros y cyfnod gweithredu rhwng mis Ebrill 2021 a Mawrth 2022, ffocws lefel uchel ar yr hyn a gyflawnwyd gan y rhaglen dros y 12 mis diwethaf a diweddariad cyffredinol ar waith ehangach y tîm rhaglen strategol cenedlaethol.

3. Cynnydd nodedig Ebrill 2021 - Mawrth 2022

- Lansio rhaglenni gwaith Datblygu Clwstwr Carlam, Seilwaith Cymunedol a Llesiant Meddyliol.
- Cynnal cyfres o weminarau a digwyddiadau i randdeiliaid er mwyn helpu i gyfathrebu ynghylch rhaglenni allweddol neu roi cefnogaeth ar gyfer problemau gweithredol drwy rannu gwybodaeth yn genedlaethol. Er enghraifft, cynhaliwyd gweminarau ar brinder cyflenwadau poteli gwaed; Gweminar ar y Feirws Syncytiol Anadlol; Digwyddiadau i randdeiliaid ar Atal Gordewdra a Diabetes; Grŵp Arbenigol [Gofal Sylfaenol Gwyrddach](#); [Digwyddiad Rhanddeiliaid Seilwaith Cymunedol](#).
- Drwy'r ffrwd waith 24/7 comisiynwyd [matrics datblygu](#), [set data isafswm](#), a [fframwaith gwerthuso](#) ar gyfer canolfannau braenaru gofal sylfaenol brys; comisiynwyd hefyd [adolygiad o ddeunydd](#) darllen i gefnogi gwaith i ddatblygu diffiniad o ofal sylfaenol brys. Bu hyn yn fodd i gwblhau [Cam 1](#), a sicrhawyd cyllid i symud ymlaen i Gam 2 i ehangu canolfannau gofal sylfaenol brys ledled Cymru.
- Ar y cyd â'r rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng, cynhaliwyd [digwyddiad rhanddeiliaid Gofal Sylfaenol Brys](#). Digwyddiad dysgu oedd hwn i rannu canlyniad y gwerthusiad o'r [Canolfannau Braenaru Gofal Sylfaenol Brys](#) a lansio cyfres o [Daflenni Ffeithiau Gofal Sylfaenol Brys](#) i gefnogi canolfannau gofal sylfaenol brys presennol ac i oleuo datblygiad canolfannau newydd.
- Drwy'r ffrwd waith 24/7 cwblhawyd gwaith gyda'r Uned Gyflawni genedlaethol i adolygu gwasanaethau cymunedol sy'n cynnwys gwelyau a chynhyrchu pecyn o adnoddau [Pecyn Cymorth Gwasanaethau Cymunedol sy'n cynnwys Gwelyau](#).
- Wedi'u cwblhau, i'w cyhoeddi ym mis Tachwedd, Canllawiau i'r Gweithlu Proffesiynol Gofal Iechyd Perthynol Gofal Sylfaenol a Chymunedol: [Trefnu Egwyddorion i Optimeiddio Defnydd](#).
- Drwy'r ffrwd waith Atal a Llesiant (ALI) ac mewn partneriaeth â'r Hyb Gofal Sylfaenol, cyhoeddwyd '[anghenion gofal sylfaenol pobl sy'n byw gyda gordewdra yng Nghymru](#)' ac adroddiad ar '[ddirnadaethau ymddygiadol gan y gweithlu gofal sylfaenol ynghylch cefnogi rheoli pwysau](#)' a sefydlwyd Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan.
- Hefyd mewn partneriaeth â'r Hyb Gofal Sylfaenol, sefydlwyd rhaglen waith i ddatblygu [Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach](#) a chynhaliwyd Grŵp Arbenigol.
- Drwy ffrwd waith y Gweithlu a Datblygu Trefniadol (GDT), cefnogwyd lansiad [adnoddau a chanllawiau cynllunio'r gweithlu Gofal Sylfaenol gan AaGIC](#).
- Drwy Grŵp Cymheiriaid Uwch Nyrsys Cymru Gyfan, cynhyrchwyd cyfres o adroddiadau SCAA, gan gynnwys Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (GCGLwyr) a rhoi inswlin, rôl arweinydd tîm Nyrsio Ardal, a rôl y Nyrs Eiriolwr Proffesiynol (NEP) yn dilyn argymhellion y Gwerthusiad o Gymdogaethau Nyrsys Ardal.
- Lansiwyd y [pecyn cymorth ar-lein ar gyfer Datblygu Clwstwr Carlam \(DCC\)](#) - cyfres o wybodaeth ac adnoddau i randdeiliaid sy'n cefnogi gweithrediad y rhaglen DCC.
- Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu Datblygu Clwstwr Carlam (DCC) gyda thros 400 o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru, i rannu'r gwaith oedd yn cael ei gyflawni ar draws rhaglen DCC.
- Lansiwyd y fframwaith lefel uchel ar gyfer Uwchgyfeirio Gofal Sylfaenol a Chymunedol, er mwyn cefnogi cynhwysiant yn sgrymiau diogelwch Cymru gyfan, gan gefnogi cydnabyddiaeth o'r pwysau

ar systemau cyfan.

- Wedi ehangu tîm y swyddfa rheoli rhaglen i gynnig mwy o gymorth ar draws y ffrydiau gwaith, ac adeiladu ar y rheolaeth gadarn sydd ei hangen ar gyfer rhaglen mor gymhleth a hon.
- Ailfrandio'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol gan gynnwys [adnewyddu'r wefan](#) a diweddarau a chreu [sianel YouTube](#) i gynnal recordiadau o ddigwyddiadau.

4. Partneriaethau

Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (RhSGS) wedi datblygu perthnasoedd gwaith agos â sefydliadau allweddol sy'n cefnogi gwaith y rhaglen.

[Hyb Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) Mae'r Hyb Gofal Sylfaenol wedi bod yn bartner i'r RhSGS ers tro. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Hyb Gofal Sylfaenol wedi datblygu cyngor a mewnbwn gan weithwyr proffesiynol sy'n arbenigo maes iechyd y cyhoedd, cymorth ar gyfer rheoli prosiectau ac amrywiaeth eang o gynnyrch i gefnogi Datblygu Clwstwr Carlam, i danategu llawer o gyflawniadau'r RhSGS. Cafwyd mewnbwn sylweddol hefyd i becynnau gwaith yr agenda atal a newid yr hinsawdd.

Mae [Comisiynu Gofal Sylfaenol](#) (CGS) wedi bod yn gweithio gyda'r RSGS i ddatblygu'r cyfeiriad ar gyfer y Clystyrau. Menter gymdeithasol yw CGS sy'n cefnogi timau iechyd a gofal er mwyn cynyddu eu gallu. Mae'r RhSGS wedi manteisio ar wybodaeth arbenigol CGS er mwyn helpu timau a sefydliadau, yn enwedig y rhai hynny mewn gofal sylfaenol, i gydweithio a chwmpasu datblygiad sgiliau arwain ymarferol i'r rhai a fydd yn symud y Clystyrau yn eu blaenau.

"Rydym wedi bod yn hynod falch o gefnogi'r RhSGS i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer Clystyrau, a bu'n bleser rhannu ein dysg a'n harbenigedd er mwyn helpu i ddatblygu rhaglen a fydd yn gwella iechyd pobl yng Nghymru, ac yn cryfhau'r ffordd y mae gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ac yn darparu gwasanaethau priodol ar raddfa leol"
**Helen Northall, Prif Weithredwr,
Comisiynu Gofal Sylfaenol**

Mae'r [Scarlet Design Agency](#), cwmni dylunio creadigol o Gaerdydd wedi chwarae rhan allweddol er mwyn ein helpu i adrodd hanes y rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, gan ddatblygu [cynllun ar dudalen](#) gwledol a [map ffordd](#) er mwyn helpu i esbonio gwaith y rhaglen. Mae'r gwaith yn parhau o ran cefnogi'r rhaglen Seilwaith Cymunedol.

Prifysgol De Cymru (PDC), mae gan dîm y RhSGS berthynas gref â chydweithwyr yn PDC sydd yn gweithio gyda'r tîm i gefnogi datblygiad y fframwaith gwerthuso, adolygu deunydd darllen, map cysyniadau a matrices ar gyfer y ffrwd waith 24/7 (model y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys yn ogystal â'r rhaglen Seilwaith Cymunedol). Mae PDC hefyd yn arwain gwaith ledled Cymru i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol, ac wedi cynnal astudiaeth o ddulliau cymysg, a llunio adroddiad ar hynny, i ddisgrifio'r [tirlun presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru](#).

Menter gymdeithaso ddielw yw [YMA](#). Mae'n canolbwyntio ar annog a galluogi gofal integredig sy'n rhoi'r prif sylw i anghenion y dinesydd. Mae Yma yn rhoi cymorth i'r Rhwydwaith Arweinwyr Clwstwr Gofal Sylfaenol yng Nghymru, gan hwyluso cyfarfodydd a sefydlu'r seilwaith er mwyn cipio dysgu a thrafodaeth. Gan gefnogi'r rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, mae Yma wedi hwyluso trafodaeth â Chyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac arweinwyr clwstwr ledled Cymru er mwyn helpu i lywio cyfeiriad y rhaglen.

5. Tîm y RhSGS

Cafwyd ychwanegiad newydd i dîm cenedlaethol y [RhSGS](#) yn y flwyddyn ddiwethaf, sef Cynghorydd Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol, i gynnig cyngor a chefnogaeth broffesiynol ar gyfer y rhaglenni Datblygu Clwstwr Carlam a Seilwaith Cymunedol. Mae'r Swyddfa Rheoli Rhaglen wedi ehangu yn sgil ychwanegu aelodau prosiect a rhaglen newydd i'r tîm, i gefnogi cyflawni'r gwaith hwn, gan roi sicrwydd a helpu'r arweinwyr cenedlaethol i gyflawni eu rhaglenni gwaith.

Tîm y rhaglen:

- Rhoi'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd am raglenni ffrwd waith, i esbonio'r gwaith sy'n cael ei gyflawni a sut y gall rhanddeiliaid ymgysylltu â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (RhSGS);
- Datblygu [tudalennau gwe'r RhSGS](#) i sicrhau eu bod yn ffynhonnell wybodaeth fanwl gywir; a
- Datblygu cyfres o gyflwyniadau wedi'u recordio, fideos byr a digwyddiadau wedi'u recordio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb yn gallu cyrchu gwybodaeth am y rhaglen ar adeg sy'n gweddu iddyn nhw.

Rhannu a dysgu:

- Sicrhau y bydd gwersi'n a ddysgir o'r cynlluniau peilot a'r profion yn cael eu gwerthuso, a'r canlyniadau'n cael eu rhannu;
- Parhau i feithrin ac adeiladu ar berthnasoedd â sefydliadau partner a rhaglenni cenedlaethol eraill;
- Cyfathrebu'n agored ynghylch llwyddiannau a methiannau er mwyn sicrhau bod gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu a'u cofnodi; a
- Ymgorffori trefniadau i adrodd a chasglu risgiau a phroblemau yn y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar draws y rhaglen.

6. Blaenoriaethau llif gwaith y RhSGS 2021/2022

Adolygwyd pob un o chwe ffrwd waith y rhaglen strategol ac ailwampwyd meysydd cyflawni allweddol y rhaglen ar gyfer 2021/22 gan sefydlu seilwaith a threfniadau adrodd a rheoli ansawdd cadarn ar gyfer y rhaglen, gan gyflwyno adroddiadau rheolaidd drwy'r Bwrdd Rhaglen Strategol. Isod ceir crynodeb o gyflawniadau allweddol y chwe ffrwd waith ac yn [Atodiad 1](#) amlinellir llinell amser lefel uchel ar gyfer cyflawniadau'r rhaglen y 2021 - 2022.

6.1. Ffrwd Waith Atal a Llesiant



Caiff y ffrwd waith hon ei chadeirio ar y cyd gan Julie Denley, Cyfarwyddwr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Dr Sarah Aitken, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r ffrwd waith hon yn cynnwys un o'r pedwar maes blaenoriaeth strategol y rhoddir sylw iddo - [Llesiant Meddyliol](#) (LIM) yn ogystal â'r tri maes gwaith arall allweddol sy'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r Hyb Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru: [Atal Gordewdra](#), [Atal Diabetes: Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan \(RhADCG\)](#), a [Phresgripsiynu Cymdeithasol](#). Mae'r ffrwd waith hefyd yn gweithredu fel y bwrdd rhaglen ar gyfer **Rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal**.

"Rwy'n wirioneddol falch o fod wedi gwneud cynnydd gyda'r gwaith cryf ar y cyd â chydweithwyr ym maes iechyd meddwl, sydd ar amser i adrodd ar agweddau allweddol ar y galw ac ar waith iechyd meddwl mewn Gofal Sylfaenol ledled Cymru, yn sail ar gyfer cyd-uchelgeisiau strategol i'r dyfodol meysydd iechyd emosiynol".

Julie Denley; Cyfarwyddwr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Yn 2021/2022 rydym wedi:

- Datblygu cynllun gweithredu cadarn a dogfennau prosiect ategol ar gyfer pob un o'r pedwar maes ffocws.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru drwy ddigwyddiadau cenedlaethol (Diabetes, Gordewdra, Presgripsiynu [Cymdeithasol](#)), yn ogystal ag ymgysylltu lleol.
- Comisiynu adolygiad o ddeunydd darllen am wasanaethau llesiant meddyliol gan Brifysgol Caerdydd
- Cynnal adolygiad o'r capasiti/o'r galw am wasanaethau llesiant meddwl lefel meddyg teulu, drwy ddefnyddio SAIL a chronfeydd data eraill
- Datblygu [Fframwaith Gweithredu](#) ar gyfer RhADCG
- Comisiynu dirnadaethau [ymddygiadol gan y gweithlu gofal sylfaenol ynghylch cefnogi rheoli pwysau](#)
- Dechrau ymarfer mapio sylfaenol gwasanaethau llesiant meddyliol Haen 0/1 ledled Cymru
- Cyhoeddi'r [adroddiad mapio llinell sylfaen ar gyfer Presgripsiynau Cymdeithasol](#) ac yn parhau i gydgyfylltu'r 3 chyflawniad arall
- Dyfarnu tendr ar gyfer partner gwerthuso RhADCG
- Cyhoeddi adroddiad ar '[Anghenion gofal sylfaenol pobl sy'n byw gyda gordewdra yng Nghymru](#)'
- Sefydlu Grŵp Llywio Atal Gordewdra mewn Gofal Sylfaenol a drafftio Cynllun Gweithredu
- Sefydlu grŵp cydgysylltu cyflawniadau Presgripsiynu Cymdeithasol
- Cynnal digwyddiadau rhanddeiliaid RhADCG

Mae'r ffrwd waith hon yn cael ei chyd-gadeirio gan Lisa Dunsford, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Richard Bowen, Cyfarwyddwr Rhaglen Genedlaethol 111/Y Tu Allan i Oriau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r ffrwd waith hon yn ceisio sicrhau, hyd y bo modd, fod y cynnig gofal sylfaenol yn gyson o safbwynt 24/7 a daearyddol. Mae'r ffrwd waith yn cynnwys dwy o bedair blaenoriaeth y RhSGS.

Model Gofal Sylfaenol Brys i Gymru - Y weledigaeth ar gyfer y rhaglen hon yw ymagwedd systemau cyfan lle darperir cymorth, gofal neu driniaeth ddi-dor mor agos at adref ag sy'n bosibl. Mae elfennau o'r rhaglen waith hon yn cael eu darparu mewn partneriaeth â rhaglen Llywodraeth Cymru - Chwe Nod ar gyfer Gofal Sylfaenol Brys.

Seilwaith Cymunedol (SC) - Rhaglen gydweithredol rhwng yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol (UGGG), y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol ac Uned Gyflawni'r GIG. Nod y rhaglen yw sicrhau cydweithio ar draws proffesiynau a sefydliadau cymunedol i gefnogi adferiad a meithrin gwytnwch.

Yn 2021/2022 rydym wedi:

- Datblygu cynllun gweithredu a chyfathrebu cadarn a dogfennau prosiect ategol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru drwy ddigwyddiadau cenedlaethol yn ogystal ag ymgysylltu'n lleol.
- Sefydlu rhaglen Cronfa Arloesi CGSB a dyfarnu arian i safleoedd er mwyn profi ffyrdd newydd o weithio
- Cynhyrchu cyfres o adnoddau digidol er mwyn helpu i gyfathrebu [ynghylch gwaith SC a GSB](#)
- Cynhyrchu bwndel o adnoddau i greu'r [Pecyn Cymorth Gwasanaethau Cymunedol sy'n cynnwys Gwelyau](#)
- Comisiynu a chyhoeddi [matrics datblygu, adolygiad o ddeunydd darllen, set o ddata craidd cenedlaethol a fframwaith gwerthuso ar gyfer](#) CGSB
- Cyhoeddi [adroddiad Braenaru Canolfan Gofal Sylfaenol Brys](#) a chyhoeddi 5 [Taflen Ffeithiau ategol](#)
- Cynnal sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid SC ym mis Tachwedd 2021 - i rannu [gwybodaeth a chasglu adborth am](#) flaenoriaethau'r rhaglen
- Diweddarau [tudalennau gwe](#) i sicrhau ffynhonnell fanwl gywir o wybodaeth.
- Cynhyrchu Model Rhesymeg i fframio'r gwaith ar Seilwaith Cymunedol a Gofal Sylfaenol Brys
- Cynnal [Digwyddiad Rhanddeiliaid GSB](#) cenedlaethol llwyddiannus, gyda thros 150 o gynrychiolwyr yn bresennol i rannu dysgu ledled Cymru.
- Penodi Cynghorydd Proffesiynol Cenedlaethol i gefnogi cyflawniad gwaith Seilwaith Cymunedol (SC)/Datblygu Clwstwr Carlam (DCC)
- Penodi Swyddogion Rhaglen a Chymorth Prosiect i gefnogi'r ffrwd waith hon
- Cytuno ar linellau amser a chyflawniadau ar gyfer gwaith o hyn allan.
- Dyfarnu Grant Academiaidd i Brifysgol De Cymru i gefnogi adolygiad o ddeunydd darllen a fframwaith gwerthuso SC

Caiff y ffrwd waith hon ei chadeirio ar y cyd gan Brian Owens, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol a Therapi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Rachel Powell, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwybodaeth, Iechyd Digidol a Gofal Cymru.

Mae 'Cymru Iachach' yn nodi data a thechnoleg ddigidol fel ffactor allweddol i alluogi trawsnewid er mwyn cefnogi'r Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru. Yn ystod Covid cafodd nifer o gyflawniadau posibl yn y ffrwd waith hon eu gohirio, ond arhosodd llond llaw ohonynt yn weithredol ac yn barod i ymateb i unrhyw ofynion o ran data a thechnoleg ddigidol y tybiwyd eu bod yn angenrheidiol i gefnogi'r GIG wrth iddo wynebu heriau'r pandemig. Ar ddechrau 2021/22, yn rhan o'r rhaglen strategol ar ei newydd wedd, adolygodd y ffrwd waith hon ei chyflawniadau, cau'r rhai a gwblhawyd, a chytuno ar dri maes allweddol i'w datblygu ar gyfer 2021/22:

(1) Datblygu [Fframwaith Uwchgyfeirio Gofal Sylfaenol a Chymunedol](#) ac offeryn i gefnogi'r rheolaeth ar y galw. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig oherwydd y cynnydd sydyn yn y galw wedi i wasanaethau'r GIG ailgychwyn a'r ôl-groniad anochel o gleifion ar draws y system.

(2) Gyda'r diddordeb cynyddol mewn data gweithgarwch a welwyd yn ystod Covid, mae prosiect wedi cael ei sefydlu i wella'r [Porthol Gwybodaeth Gofal Sylfaenol \(PGGS\)](#). Bwriedir i'r prosiect hwn fod o gymorth i roi tystiolaeth o fod wedi cyflawni contract, a gwella'r dull o gyflwyno gwybodaeth yn gysylltiedig â gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.

(3) Bwriedir [i'r prosiect Mesurau Dyddiau Iach Gartref \(DIG\) i Gymru](#) ddangos effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd cymunedol o ran gwella canlyniadau iechyd a llesiant pobl drwy atal a gofal rhagweithiol, ac osgoi achosion o dderbyn cleifion yn ddiangen.

Yn 2021/2022 rydym wedi:

- Cychwyn trafodaethau â Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gychwyn yr adolygiad o drefniadau llywodraethu'r PGGS a'r hawliau mynediad sydd wedi'u sefydlu ar gyfer meysydd data presennol - pa ddata a gwybodaeth y gall defnyddwyr eu gweld, eu dadansoddi a'u hechdynnu.
- Cychwyn ymarfer adborth rhanddeiliaid yn gysylltiedig â galluedd cyflwyno a dadansoddi'r PGGS.
- Ar ôl lansio'r fframwaith Uwchgyfeirio ym mis Rhagfyr, mae gwaith cwmpasu wedi dechrau ar Gardiau Gweithredu er mwyn creu crynodeb enghreifftiol, gan gynnwys cardiau gweithredu cenedlaethol cyffredinol lefel uchel.
- Sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen a chanddynt gylch gorchwyl cadarn ar gyfer y tri phrosiect
- Cyhoeddi'r Fframwaith Uwchgyfeirio Sylfaenol a Chymunedol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru
- Cytuno ar egwyddorion y mesur DIG yng nghyd-destun Cymru
- Cwblhau Cam 1 DIG (dangosfwrdd profi cysyniad)
- Gweithio gyda data cwmpasu'r ffrwd waith 24/7 a gofynion adrodd y CGSB.

6.4. Y Gweithlu a Datblygu Trefniadol (GDT)



Mae'r swydd Cadeirydd o blith Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar gyfer y ffrwd waith hon yn wag ar hyn o bryd. Y Cyd-Gadeirydd yw Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r ffrwd waith hon yn cynnwys tri maes blaenoriaeth, pob un wedi'i ailwampio a'i alinio â meysydd blaenoriaeth a themâu cyffredinol y RhSGS. Ceir ffocws newydd ar ffrwd waith y Gweithlu a Datblygu Trefniadol, ac nid yw peth o'r gwaith ond megis dechrau. Mae'r gwaith yn parhau ac yn mynd rhagddo'n dda. Daeth y sefyllfa'n fwy eglur yn ail hanner 2021/22, pan gadarnhawyd y cwmphas a'r amcanion, ac y lluniwyd dogfennau prosiect ategol i amlinellu cynlluniau clir.

Meysydd â blaenoriaeth:

1. [Cyfleoedd arwain a dysgu Cydweithredol i Glystyrau a Chontractwyr yn y Dyfodol](#)
2. [Rheolwr Ymarfer Cyffredinol yn arwain ac yn rhwydweithio drwy'r Porthol Gwella](#)
3. [Online compendium of job descriptions & competencies for: Allied Health Professions, Community Pharmacy and Nursing](#)

Yn 2021/2022 rydym wedi:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru drwy ddigwyddiadau cenedlaethol yn ogystal ag ymgysylltu'n lleol.
- Cynnal sesiwn ymgysylltu arweinyddol lwyddiannus rhwng Rheolwyr Ymarfer a chyn Gyfarwyddwr Cyffredinol y GIG, Dr. Andrew Goodall
- Cwmpasu'r gofynion [arweinyddol a chymhwysedd ar gyfer y rhaglen DCC](#) a Chydweithfa i Gontractwyr sy'n gweithio ledled Cymru
- Cynnal arolwg o reolwyr practis cyffredinol i ddeall beth yw'r archwaeth am rwydwaith Cymru Gyfan o reolwyr practis - cafwyd 198 o ymatebion. Llunio adroddiad yn sail ar gyfer cam nesaf y gwaith
- Cefnogi AaGIC i gynhyrchu [adnoddau a chanllawiau cynllunio'r gweithlu Gofal Sylfaenol gan AaGIC](#)
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i barhau i hyrwyddo [Locum Hub Wales](#) a [System Adrodd Gweithlu Cenedlaethol Cymru](#)
- Comisiynu adolygiad o ddeunydd arweiniol [llwyfan Gwella](#) er mwyn ystyried sut i'w gymhwyso i'r gweithlu gofal sylfaenol.
- [Cyhoeddi papur ar gyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer arweinwyr clwstwr newydd a phresennol.](#)
- Cyhoeddi [papur Cyfarwyddyd GPPI Gofal Sylfaenol a Chymunedol](#)
- Derbyn adroddiad gan yr Hyb Gofal Sylfaenol ar Raglen Arweinyddiaeth Rheolwr Practis Hyderus a Rhwydwaith Rheolwyr Practis Cymru
- Cytuno ar rôl y ffrwd waith GDT o ran datblygu Fframwaith Addysg a Dysgu Gofal Sylfaenol a Chymunedol (Academiâu) o dan arweiniad AaGIC.
- Parhau i weithio gydag AaGIC a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) i adeiladu compendiwm *Unwaith i Gymru* o swydd-ddisgrifiadau, cymhwyseddau a sgiliau.

6.5 Ffrwd Gwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Fel y cydnabyddir yn [Cymru Iachach](#), mae angen codi ymwybyddiaeth ynghylch y modd y mae gwasanaethau ledled Cymru yn newid, yr hyn sydd ar gael yn lleol a sut a phryd i geisio'r gwasanaethau hynny. Sefydlwyd y ffrwd waith hon i ymateb yn benodol i'r materion hyn a chyfrannu atynt, fel y nodir yn [y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol](#) (Tachwedd 2018) :

“Mae angen ystyriaeth ofalus ac arbenigedd penodedig i gyfathrebu ac ymgysylltu ar fodel gofal sylfaenol ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau y ceir dealltwriaeth gan yr holl randdeiliaid a bod y cyhoedd yn glir o ran beth mae'n ei olygu wrth fwrw ymlaen”.

Mae'r ffrwd waith hon ar stop ar hyn o bryd yn ystod y pandemig, tra bo gwaith arbenigol a chyfathrebu cenedlaethol yn canolbwyntio ar yr ymgyrch genedlaethol *Helpwch Ni i'ch Helpu Chi*.

Yn 2021/2022 rydym wedi:

- Cefnogi'r gwaith i gyfleu negeseuon ymgyrch *Helpwch Ni i'ch Helpu Chi* (HNHCh) drwy waith y RhSGS.
- Sicrhau bod negeseuon y RhSGS yn gefnogol ac yn gyson â negeseuon cenedlaethol.
- Gweithio gyda thîm ymgyrchu cenedlaethol HNHCh i adolygu'r defnydd o'r deunyddiau cyfathrebu gyda chontractwyr gofal sylfaenol, ac ystyried pa negeseuon ac ymgyrchoedd cyfathrebu lleol a chenedlaethol pellach y gellir eu rhoi ar waith i sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal cywir yn y lle cywir ar y tro cyntaf, a bod pawb yn deall Model Gofal Sylfaenol Cymru.

What to expect from your GP practice?

GP's are independent contractors and so can choose to operate differently. Across Wales, there will be a range of different options available to you.

Initial Contact

Contact your GP practice either via your GP's digital service, online tools (such as MyHealthOnline, E-Consult) or via telephone. Your enquiry will be taken by a receptionist who will ensure you are treated at the right time, in the right place and by the right professional.

Triage

The NHS navigator will ask you questions to ensure the correct NHS professional can deal with your enquiry. This may be a GP, Pharmacist, Practice Nurse, Physiotherapist, Occupational Therapist, Optometrist, Dentist, Podiatrist, Health Visitor or Social Care Workers.

Telephone/Video Appointment

A telephone or video appointment may be made with the most appropriate professional. A joint decision will help to determine if the issue can be dealt with remotely or whether a face to face appointment is required.

Face to Face Appointment

If a face to face appointment is clinically necessary, the GP practice will make arrangements for you to attend in person.

Register your request/need

Receive a clear decision

Telephone Appointment OR Video Appointment OR Face to Face Appointment OR

Signposted to the most appropriate service

DIODDELLU CYMRU
KEEP WALES SAFE

If you are experiencing severe chest pain, collapse, severe breathing difficulties, have one sided weakness or slurred speech or severe bleeding, please do not contact your GP practice. **Dial 999 immediately.**

GIG CYMRU
NHS WALES

Figur 3 Deunydd enghreifftiol o'r ymgyrch Helpwch Ni i'ch Helpu Chi

6.4 Trawsnewid a Gweledigaeth i Glystyrau

Caiff y ffrwd waith hon ei chadeirio ar y cyd gan Sue Morgan, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gofal Sylfaenol a Zoe Wallace, Cyfarwyddwr Rhaglen RhSGS/Yr Hyb Gofal Sylfaenol.

Mae'r ffrwd waith hon yn cynnwys tri maes gwaith allweddol er mwyn bwrw ymlaen i weithredu [Model Gofal Sylfaenol Cymru](#) (MGSC). Mae MGSC yn disgrifio'r modd y bydd gofal yn cael ei ddarparu'n lleol, nawr ac yn y dyfodol. Mae'n rhan greiddiol o'r ymagwedd systemau cyfan at ofal sylfaenol a chymunedol, i gefnogi uchelgais [Cymru Iachach](#) i greu system iechyd a gofal gynaliadwy a diogel yng Nghymru:

[Datblygu Clwstwr Carlam \(DCC\)](#) - rhaglen uchelgeisiol i helpu GIG Cymru i gyflymu gweithrediad MGSC a chymryd cam mawr cadarnhaol ymlaen yn nhermau datblygu clystyrau carlam. Drwy hyn, bydd clystyrau yn y dyfodol yn rhan o'r brif ffrwd yn nhermau cynllunio a dylunio gwasanaethau lleol, a byddant yn gallu cyflenwi llu o wasanaethau arloesol trawsddisgyblaethol, aml-asiantaeth integredig er budd y boblogaeth leol.


“Rwyf wedi mwynhau gweithio gyda thîm y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn fawr iawn yn y ddwy ffrwd waith yr wyf yn aelod ohonynt ac o ddydd i ddydd. Rwy'n gwerthfawrogi'r perthnasoedd hyn ac yn edmygu ymrwymiad a chreadigrwydd pawb. Rwy'n gwerthfawrogi cael fy nhrin fel partner gwerthfawr ac yn edrych ymlaen at 2022-23.”

Cathy White, Arweinydd Cydgysylltu Llywodraeth Cymru ar gyfer Model Gofal Sylfaenol Cymru.

[Llywodraethu Clinigol, Ansawdd a Diogelwch mewn Gofal Sylfaenol](#) - rhaglen waith genedlaethol i gefnogi gweithrediad [Cynllun Ansawdd a Diogelwch Cymru](#) (Medi 2021) a'r [Fframwaith Clinigol Cenedlaethol](#) (Medi 2021). Mae ansawdd a diogelwch yr holl wasanaethau sylfaenol a chymunedol a gyflenwir yn uniongyrchol gan fyrdau iechyd, yn ogystal â monitro gwasanaethau gan contractwyr annibynnol drwy contractau â'r byrdau iechyd o fewn y cwmpas.

[Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach i Gymru](#) - wedi'i arwain gan yr Hyb Gofal Sylfaenol, lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r prosiect hwn sy'n rhan o gohort 7 Esiampl Bevan wedi datblygu Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach a phroses asesu y gellir ei symud ymlaen ar draws y 4 proffesiwn

contract, ac ar sail ôl-troed clwstwr ledled Cymru. Bydd y camau gweithredu a'r categorïau o fewn y fframwaith wedi'u halinio â [Chynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, a'r ymrwymïadau uchelgeisiolyn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau trawsnewid gwyrdd er mwyn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur.



Figur 4
Cynllun ar Dudalen ar gyfer Datblygu Clwstwr Carlam

Yn 2021/22 rydym wedi:

- Datblygu cynlluniau gweithredu a chyfathrebu cadarn ar gyfer y tair rhaglen/tri phrosiect.
- Ymgysylltu'n helaeth ag arweinwyr Clwstwr a rhanddeiliaid DCC ledled Cymru
- Cynnal dwy sesiwn archwilio dwfn rhwng arweinwyr gofal sylfaenol y byrddau iechyd ac arweinwyr Clwstwr, wedi'u hwyluso gan YMA
- Dechrau gwaith gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i lunio contractau cyfreithiol i gefnogi DCC a chyda Comisiynu Gofal Sylfaenol er mwyn helpu i ddatblygu egwyddorion ar gyfer sefydlu Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Sefydlu Grŵp Arbenigwyr DCC i brofi'r feddylfryd
- Cynnal [digwyddiad ymgysylltu](#) DCC gyda thros 400 o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru i rannu'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar y rhaglen DCC.
- [Lansio'r pecyn cymorth DCC](#) a chyfres o fideos a deunyddiau esboniadol
- Gweithio gyda LIC ar Fframwaith Cynllunio'r GIG 2022/25 a Chanllawiau'r Cynllun Clwstwr 2022/23
- Llunio [drafft o Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach](#) a phrofi'r feddylfryd gyda Grŵp o Arbenigwyr; comisiynu Students Organising for Sustainability (SOS) i reoli'r broses asesu.
- [Lansio Porth Cefnogi Cynlluniau Clwstwr](#)
- Dechrau ar waith i greu Strategaeth Llywodraethu Clinigol Drosfwaol ar gyfer Gofal Sylfaenol yng Nghymru.
- Cyhoeddi [delweddau](#) i gefnogi ochr gymdeithasol DCC.
- Cyhoeddi [Cylch Gorchwyl ar gyfer grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr](#)
- Datblygu'r fframwaith a'r deunyddiau ategol ar gyfer Cronfa'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (Cronfa RhSGS), gwerth £3.8 miliwn, o fis Ebrill 2022.
- Cyhoeddi [cynllun monitro a gwerthuso ar gyfer MGSC / DCC](#) a drafftio proses Adolygu Cymheiriaid Clystyrau



"Fel Cwmni Buddiannau Cymunedol sy'n gweithredu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ers 2015, mae cael y cyfle i drafod a rhannu ein profiadau â'r RhSGS yn gysylltiedig â gwaith clwstwr wedi bod yn fuddiol iawn. Mae hi wedi bod yn galonogol gweld brwdfrydedd parhaus cydweithwyr y RhSGS a gofal sylfaenol o ran rhannu a chyd-greu cynlluniau i gyflymu gwaith clwstwr, ac i annog gwaith cydgysylltiedig rhwng yr holl ddarparwyr gwasanaeth sy'n ymwneud â bodloni anghenion iechyd eu poblogaethau. Mae ein gwaith gyda'r RhSGS wedi rhoi cyfle pellach inni drafod y llwyddiannau a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â gweithredu Cwmni Buddiannau Cymunedol, ac i rannu ein profiad â chydweithwyr yn ehangach ar draws Cymru, a allai fod am ystyried eu opsiynau o ran darpariaeth gwasanaeth. Rydym yn edrych ymlaen i weld datblygiadau'r rhaglen DCC ledled Cymru dros y misoedd nesaf, ac yn wirioneddol yn cymeradwyo'r holl waith caled a'r cydymdrechion a gafwyd er mwyn llunio strategaeth gyffrous ar gyfer clystyrau gofal sylfaenol."

Siân Jones,
Rheolwr Datblygu Busnes, Red Kite health Solutions CIC

7. Y diweddaraaf am waith ehangach tîm y Rhaglen Strategol genedlaethol

7.1 Y Diweddaraaf gan yr Arweinydd Nyrsio Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Grŵp Cymheiriaid Uwch Nyrsys Cymru Gyfan

Mae grŵp cymheiriaid Uwch Nyrsys Cymru Gyfan a sefydlwyd y mis Mai 2021, yn dod ag arweinwyr nyrsio gofal sylfaenol a gofal cymunedol ynghyd o'r 7 bwrdd iechyd i gynnal fforwm i Uwch Nyrsys sy'n gweithio mewn Gwasanaethau Cymunedol ar draws yr ystod oedran. Yn y Fforwm, gallant rannu arfer da a dylanwadu ar yr elfen nyrsio o fewn y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol.

Ffocws allweddol 2021/2022:

- Amlinellu gwaith y RhSGS, beth yw DCC a chyfleoedd i'r grŵp cymheiriaid ddylanwadu ar elfen nyrsio'r RhSGS.
- Adolygu'r egwyddorion sylfaenol a phapur Llywodraeth Cymru ar Bolisi Ymarfer Nyrsio Cymunedol
- Adolygu'r ystyriaethau cychwynnol ynghylch yr hyn yr oedd y rhaglen Seilwaith Cymunedol yn ei chynnwys o safbwynt Nyrsio
- Trafod ac/neu ddatblygu amrywiaeth o adroddiadau SCAA, gan gynnwys Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a Rhoi Inswlin a arweiniodd at SCAA ar wahân yn argymhell cyllid i gefnogi datblygiad Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ar gyfer Gwasanaethau Nyrsio Ardal. Ochr yn ochr â hyn, datblygwyd SCAA ar wahân i gefnogi rôl arweinydd tîm Nyrsys Ardal, a phrofi rôl Eiriolwr Nyrsio Proffesiynol (ENP), yn dilyn argymhellion y Gwerthusiad o Gymdogaethau Nyrsys Ardal. Gofynnai hyn hefyd am gyllid ar sail cyfnod penodol. Mae'r cyllid cyfnod penodol ar gyfer y ddau SCAA hyn wedi'i gytuno, a bydd y Byrddau Iechyd yn cael gwybod yn fuan faint y byddant yn ei dderbyn.
- Nodi meysydd lle mae angen gwneud gwaith pellach, fel Siartiau Rhoi Meddyginiaeth sy'n cael ei ddatblygu drwy Fforwm Nyrsys Ardal Cymru Gyfan.
- Dechrau trafod gwaith cychwynnol ar ddrafft o Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol
- Cefnogi'r rhaglen Seilwaith Cymunedol drwy gyd-gadeirio a darparu aelodau i fynychu grwpiau Gorchwyl a Gorffen a grŵp rhanddeiliaid allweddol
- Cynorthwyo i ddatblygu a chytuno ar fesurau cyson i werthuso effaith newidiadau i weithlu Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a'r rôl Eiriolwr Nyrsio Proffesiynol o ganlyniad i gyllid SCAA
- Parhau i ddatblygu fel grŵp, gan roi cefnogaeth i'r aelodau, a bod yn lle i gynnal trafodaeth ddiogel a nodi meysydd gwaith posibl i'r Nyrs Genedlaethol a'r RhSGS

Mae'r Arweinydd Nyrsio Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol hefyd wedi bod yn gweithio gyda chymheiriaid ledled Cymru er mwyn helpu i gyflwyno Malinko. System e-amserlennu yw Malinko a gaffaelwyd ym mis Ebrill 2021 ar gyfer yr holl Dimau Nyrsio Ardal, ac ers hynny mae gwaith wedi bod ar droed i ehangu'r system ledled Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae AaGIC wedi bod yn gweithio ar ddull i fesur aciwtedd pobl yn llwyth gwaith Nyrsys Ardal, o fewn Malinko. Mae hyn yn golygu, unwaith y bydd yr holl dimau o Nyrsys Ardal yn fyw ar y system, y bydd modd cael darlun gwell o'r galw ac o gapasiti llwythi gwaith nyrsys ardal, ac aciwtedd y bobl yn eu llwythi gwaith, ledled Cymru. I gefnogi hyn, bydd set ddata genedlaethol yn cael ei datblygu ar gyfer Nyrsys Ardal, a gefnogir gan y dadansoddydd data, sydd hefyd wedi derbyn cyllid yn ddiweddar o arian Cymdogaethau Nyrsio Ardal.

7.2 Y Diweddaraaf gan yr Arweinydd GPPI Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Grŵp Arwain Cymru Gyfan ar gyfer PPI mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Mae Grŵp Arwain Cymru Gyfan ar gyfer PPI mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn adeiladu ar fframwaith cyfathrebu presennol yr Arweinydd PPI Cenedlaethol, gan gynnig fforwm i Arweinwyr PPI

lefel uchel ar draws proffesiynau a lleoliadau, i rannu arfer gorau, ystyried materion a datblygiadau a gynigir, a dylanwadu ar elfen PPI y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (RhSGS).

Ffocws allweddol 2021/2022:

- Rhoi cyhoeddiad y RhSGS ar waith: [Canllawiau'r Gweithlu PPI mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol Trefnu Egwyddorion i Optimeiddio Defnydd](#).
- Cefnogi datblygiad arweinyddiaeth PPI gydweithredol, ddeinamig, gydlynus, lefel uchel sy'n ennyn parch ar draws Gofal Sylfaenol a Chymunedol.
- Galluogi Gofal Sylfaenol a Chymunedol i ddatblygu'n gyd-destun ymarfer safonol i gyfran sylweddol o'r gweithlu PPI, gyda'r ystod lawn o lefelau ymarferydd.
- Llywio datblygiad Compendiwm Rolau PPI Gofal Sylfaenol a Chymunedol gefnogi datblygiad y gweithlu a gwasanaethau. Yn gyson â'r ffocws sy'n datblygu ar y Fframwaith Addysg Gofal Sylfaenol a'r Ymarferydd Cyswllt Cyntaf.
- Gwireddu uchelgais rhaglenni gwaith Datblygu Clwstwr Carlam a Seilwaith Cymunedol y RhSGS, lle bydd iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid yn cydweithredu a chydweithio'n agos ar raddfa leol a rhanbarthol i ddarparu gofal di-dor sy'n seiliedig ar le, gyda mynediad uniongyrchol at ystod ehangach o gymorth aml-broffesiwn.
- Cefnogaeth barhaus i ddatblygu data PPI cenedlaethol ar draws gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol, gan gynnwys trosi data System Adrodd Gweithlu Cenedlaethol Cymru i greu gwybodaeth PPI yn sail ar gyfer cynllunio'r gweithlu.
- Hysbysu'r Rhaglenni Cenedlaethol eraill a galluogi partneriaid o safbwynt PPI Gofal Sylfaenol a Chymunedol, gan gynnwys y Rhaglen Fframwaith PPI, ac argymhell lle gellid bod angen alinio gwaith, 'ei berchnogi, bartneru neu ei hyrwyddo' neu ei ddatblygu ymhellach. Gan gynnwys:
 - Gwaith a gasglwyd ac a gyflwynwyd yn y digwyddiad Cenedlaethol: Arloesi ledled GIG Cymru mewn ymateb i COVID-19, gan dynnu sylw at gyfraniad PPIau wrth gyflwyno newid sylweddol yn ystod yr ymateb i'r pandemig ac wrth inni symud tuag at ailosod ac adfer.¹
 - Ffocws negeseuon allweddol yn Nigwyddiad Cenedlaethol Rhaglen y Fframwaith PPI: Sicrhau Hygyrchedd ac Ymatebolrwydd PPI.²
 - Parhau i ddarparu Arweinyddiaeth PPI o fewn TEC Cymru, gan gynnwys rôl Cadeirydd yn Cymuned Ymarfer Genedlaethol: Asesiadau Corfforol mewn Byd Rhithiol.³
 - Parhau i gefnogi ac alinio â'r Chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng yng Nghymru, y cynllun sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Rheoli'r Galw/Diogelwch Clinigol mewn Gofal Brys ac Argyfwng, a'r Model Gofal Sylfaenol Brys, gyda ffocws arbennig ar ddatblygu'r gweithlu a sicrhau'r defnydd gorau.⁴
 - Cefnogaeth barhaus ac aliniad â Gofal wedi'i Gynllunio, gan ganolbwyntio ar 'Ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy yn y gymuned' ac 'Optimeiddio cleifion - Datblygu opsiynau yn nes at adref.'

7.3 Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol

Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn parhau i arwain agweddau clinigol a systemau ar draws rhanddeiliaid a chontractwyr clinigol ledled Cymru. Gan weithio gyda'r Grŵp Cymheiriaid Cyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyl, y mae wedi cadeirio'r cyfarfodydd wythnosol, sydd hefyd yn cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru ac o'r rhaglen strategol gan roi adborth ar faterion lleol a chenedlaethol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â Covid-19, a materion clinigol a llywodraethu nad ydynt yn ymwneud â Covid-19.

¹ Adroddiad Astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid GIG Cymru COVID-19 | Cydffederasiwn y GIG

² Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd - newyddion a digwyddiadau - AaGIC (nhs.wales)

³ Asesiadau Corfforol mewn Byd Rhithwir | Iechyd Digidol Cymru (iechyddigidol.cymru)

⁴ Tafenni Ffeithiau Braenaru | Gofal Brys 24/7 (247urgentcare.wales)

Dyma rai cyflawniadau penodol:

- Cefnogi'r Grŵp Rheoli Argyfwng o ran y prinder poteli gwaed BD, arwain gwaith cyfathrebu gofal sylfaenol a dylunio a chadeirio gweminar pwrpasol lle'r oedd dros 160 o bobl o bob un o saith ardal y Byrddau Iechyd yn bresennol (gan gynnwys Meddygon Teulu, Nyrsys Practis, Rheolwyr Practis, staff y Byrddau Iechyd).
- Cefnogi datblygiad elfen gofal sylfaenol y llwybr bronciolitis a chadeirio'r ddau weminar RSV cysylltiedig, lle'r oedd 60 o bobl yn bresennol. Cefnogi'r cyflenwad o ocsifesyryddion pwls paediatrig.
- Cefnogi gweithredu'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, drwy ddatblygu mentrau Cyngor ac Arweiniad a gwaith ar gaffael llwyfan Rhyngwyneb Digidol Sylfaenol/Eilaidd genedlaethol ar gyfer llwybrau clinigol.
- Cefnogi'r rhaglen genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio:
 - drwy benodi cynrychiolwyr a dirprwyon Cyfarwyddwyr Clinigol/Cyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyol i'r holl ffrydiau gwaith ar gais, er mwyn rhoi llais cyson i reolwyr clinigol gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol; ac
 - arwain gweithdy ar atgyfeirio'n effeithiol gyda siaradwyr o Seland Newydd a gofal sylfaenol/eilaidd, yn rhan o Uwchgynhadledd Gofal wedi'i Gynllunio LIC.
- Parhau i ddatblygu fframweithiau ansawdd a diogelwch mewn gofal sylfaenol, yn dilyn cyhoeddi Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cymru, gyda chyflawniadau penodol:
 - Awdur y Fframwaith Adolygu Marwolaethau Cenedlaethol, a gyhoeddwyd Awst 2021
 - Cyfrannu at ddatblygu a phrofi modiwl DATIX RL Adolygiad Dysgu yn sgil Marwolaeth Unwaith i Gymru, a ryddhawyd 1Hydref 2021
 - Cychwyn cyfarfod llywodraethu chwarterol rhwng Cyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyol, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol, NCAS a chydweithwyr Optometreg/Fferylliaeth Gymunedol/Deintyddiaeth i drafod problemau'n gysylltiedig â Rhestrau Cyflawnwyr
- Arwain Datblygiad Prosiect y Mesur Dyddiau Iach Gartref.

7.4 Ymgysylltu a chynrychiolaeth genedlaethol:

Mae'r arweinwyr cenedlaethol yn y RhSGS yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid ledled Cymru ac yn cydgysylltu a chynnig mewnbyn ynghylch systemau gofal sylfaenol ac arweiniad i ystod o grwpiau cynllunio a chyflawni cenedlaethol ledled Cymru i randdeiliaid a chymheiriaid, gan gynnwys:

- Grŵp Goruchwylio Adferiad Gofal Sylfaenol ar ôl Covid-19 - Llywodraeth Cymru
- Fforymau Diwygio Contractau
- Grŵp Cymheiriaid Is-gadeiryddion Cenedlaethol
- Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol 111
- Bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio Cenedlaethol
- Bwrdd Rhaglen Iechyd Meddwl Cenedlaethol
- Fframwaith Clinigol Cenedlaethol
- Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng
- Fforymau Arweinwyr Clinigol Cenedlaethol
- Fforymau Llwybrau Cenedlaethol
- Fforymau a gweithdai Dyletswydd Gonestrwydd
- Grŵp Llwybr Hunaniaeth o ran Rhywedd Cymru
- Grŵp Cyfathrebu Helpwch Ni i'ch Helpu Chi.
- Cysylltu â thimau gweithredol/grwpiau cymheiriaid Iechyd a Gofal Digidol Cymru, AaGIC, PCGC, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Byrddau Iechyd
- Cysylltu â CLILC, Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

8. Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel o waith ffrydiau'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a'r Arweinwyr Cenedlaethol yn ystod 2021/2022. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu deunyddiau'r rhaglen a deunyddiau cyfathrebu er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein holl randdeiliaid ledled Cymru, er mwyn arddangos gwaith y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol.

9. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth



Anfonwch e-bost atom yn: SPPC@wales.nhs.uk
@SPPCWales



Dilynwch ni:



Cewch yr wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith yn: [Rhaglen Strategol - Gofal Sylfaenol Un \(nhs.wales\)](https://www.nhs.uk/rhaglen-strategol-gofal-sylfaenol-un/)



Gwylwch fideos ar ein sianel YouTube:
<https://www.youtube.com/channel/UCdoNfzDbWcnIUVEbxX7XnUg>

16. Atodiad 1 Cyflawniadau'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol 2021-22

